

Adroddiad ar ymchwiliad craffu'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Drafft

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatganiad ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) drafft yn y Sesiwn Lawn ar 26 Mehefin 2007. Cafwyd ymgynghoriad ar y Mesur drafft, a ddaeth i ben ar 28 Medi.

Ar 11 Gorffennaf 2007 cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymholiad craffu cyn proses ddeddfu o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) drafft a chael tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol yn ystod tymor yr hydref. Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno i'r Dirprwy Brif Weinidog.

Caiff cwmpas pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i basio deddfwriaeth ar fater penodol ei nodi yn Rhan 3 ac Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn achos teithiau gan ddysgwyr, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol yr hawl i greu Mesurau ar gyfer "teithiau pobl sy'n cael addysg gynradd, uwchradd, addysg bellach neu hyfforddiant i gyrraedd yr ysgolion neu fannau eraill lle cânt addysg ac yn ôl'.

Yn gyffredinol, rhydd hyn gwmpas i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar gyfer teithio i'r ysgol, ac i ddysgwyr ôl-16, fel sydd eisoes wedi'i sefydlu gan Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd). Enillodd y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer hwn gan Orchymyn Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007 a gafodd drosi'r pwerau yn adrannau 178 ac 179 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn ddiwygiadau i Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ceir cyfyngiadau ar gwmpas y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn creu Mesur ar gyfer teithiau gan ddysgwyr. **Ni all** y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar faterion sy'n gyfrifoldeb i'r Adran Drafnidiaeth, er enghraifft, safonau a thrwyddedu cerbydau, archwiliadau o gerbydau, trefniadau eistedd megis y 'consesiwn 3 disgybl yn rhannu sedd i 2', gwregysau diogelwch, a thrwyddedu gyrrwr.

2. Craffu

Cynhaliodd y Pwyllgor dair sesiwn graffu lle cafodd dystiolaeth lafar gan randdeiliaid allweddol, a ddarparodd dystiolaeth ysgrifenedig hefyd.

26 Medi 2007: Cyrff Addysg

Fforwm

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru

Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru

Llywodraethwyr Cymru

Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru (WSSA)

3 Hydref 2007: Rhieni a Defnyddwyr

Y Comisiynydd Plant

Belt up School Kids (BUSK)

Ymgyrch Stuart

Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)

10 Hydref 2007: Darparwyr Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cymdeithas Cydgysylltwyr Trafnidiaeth Cymru (ATCO)

Cyddfederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru (CPT)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Ieuan Wyn Jones AC, Dirprwy Brif Weinidog a'i swyddogion

Nododd y Pwyllgor hefyd bapurau a gyflwynwyd gan SUSTRANS, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, Y Ddraig Ffyni a CYDAG.

3. Dadansoddiad o'r Dystiolaeth

3.1. Model Oedran/Pellter

Mae'r Mesur drafft yn cynnig darparu cludiant am ddim i bob plentyn sydd mewn addysg gynradd os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf. Ar gyfer plant ysgol uwchradd, mae'r Mesur drafft yn parhau â'r cyfyngiad pellter tair milltir presennol.

Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth eang. Mynegodd Llywodraethwyr Cymru¹, Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru (WSSA)², y Comisiynydd Plant³, Cymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth Cymru (ATCO)⁴, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru (CPT Cymru)⁵ oll eu cefnogaeth ac ni fynegodd unrhyw dyst wrthwynebiad i'r cynigion yn y Mesur. Fodd bynnag, yn eu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor argymhellodd y RhAG adolygiad o'r ffin pellter teithio tair milltir i ysgolion uwchradd gan ddadlau y byddai lleihau'r pellter i ddwy filltir yn mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad ar fysiau gwasanaeth.⁶

Mynegodd y Gymdeithas Awtistig Genedlaethol (NAS) bryderon ynglŷn â'r diffyg darpariaeth ar gyfer cludiant am ddim i ddisgyblion sydd ag anawsterau symudedd sy'n byw o fewn y pellter cerdded statudol i'w hysgol.⁷

3.2. Disgresiwn Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau teithio

Mae'r Mesur yn caniatáu i awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio eu disgresiwn er mwyn darparu cludiant am ddim neu gludiant a gymorthdelir, er enghraifft, i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion enwadol. (Adran 5) Dadleuodd RhAG bod hyn yn rhoi ysgolion Cymraeg o dan anfantais o'u cymharu ag ysgolion Saesneg.⁸ Awgrymodd y dylai enwi "ysgol addas" (adran 3(6)) fod yn berthnasol i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg lle ceir rhwydwaith o ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig.⁹ Derbyniodd y Pwyllgor ragor o dystiolaeth ysgrifenedig i'r perwyl hwn gan CYDAG.¹⁰

Mynegodd Llywodraethwyr Cymru, y Comisiynydd Plant ac ATCO oll eu cefnogaeth yn eu cyflwyniadau i barhau â'r sefyllfa bresennol. Mae CPT Cymru o'r farn y dylai'r disgresiynau a gynigwyd gan awdurdodau lleol fod yn agored i gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Cytunodd CLILC i gadw disgresiwn a dywedodd wrth y Pwyllgor y dylai'r mater hwn gael ei ystyried yn yr un cyd-destun â chynllunio darparu lleoedd mewn ysgolion. Eglurodd y Cynghorydd John Davies:

¹ EL (3) 04-07 (t.2), Llywodraethwyr Cymru, Tystiolaeth ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)

² EL (3) 04-07 (t.1), WSSA, Tystiolaeth ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)

³ EL (3) 05-07 (t.1), Comisiynydd Plant Cymru, Tystiolaeth ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)

⁴ EL (3) 06-07 (t.1), ACTO, Tystiolaeth ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Drafft

⁵ EL (3) 06-07 (t.2), CPT, Tystiolaeth ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)

⁶ Y Pwyllgor Menter a Dysgu, Trawsgrifiad y Pwyllgor, 3 Hydref 2007, paragraff 85 <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assembly-2007-08/committees-third-assembly-2007-08-agendas/el20071003qv.pdf?langoption=3&ttl=EL%283%29-05-07%20%3A%20Transcript%20%28PDF%2C%20215kb%29>

⁷ EL (3) 06-07 (t.5) Cynnig ar gyfer Mesur Cynulliad Teithio gan Ddysgwyr (Cymru): Ymateb gan Gymdeithas Awtistig Genedlaethol Cymru.

⁸ EL (3) 05-07 (t.2), RhAG, Tystiolaeth ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru).

⁹ Op Cit., Trawsgrifiad, 3/10/07, paragraff 71

¹⁰ Tystiolaeth CYDAG.

it is about parental preference and not parental choice, and there is a subtle difference in that respect. There will be opportunities, quite rightly, to provide Welsh-medium or denominational provision, but it is scattered; the provision in Powys and Pembrokeshire is a classic example of that. Therefore, the discretion must lie with the authority in terms of transport being available to travel to school A rather than to school B, because you also have to consider the issue of capacity in those schools. Sometimes, if parents choose to send their children to school A, there may not be places there, but there may be places in school B that is providing denominational or Welsh-medium education. Therefore, you have to have that discretion. It is about being able to make a decision locally.¹¹

Dadleuodd CLILC nad yw'r hyn y byddai rhieni'n ei ystyried fel eu dewis cyntaf bob amser yn rhesymol o ran elfennau eraill o ddarparu addysg. Yr hyn sy'n bwysig yw bod cludiant i'r ysgol **ar gael** er mwyn darparu addysg enwadol neu addysg cyfrwng Cymraeg.

Cododd rhai Aelodau'r mater o gadw disgresiwn gyda'r Dirprwy Brif Weinidog pan ddaeth gerbron y Pwyllgor. Eglurwyd pe byddai'r hawl i gael cludiant i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn cael ei ymestyn, byddai'n rhaid gwneud hyn i ysgolion cyfrwng Saesneg ledled Cymru hefyd. Nid yw rhai ysgolion wedi'u dynodi'n glir fel ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion cyfrwng Saesneg, felly byddai'n effeithio ar drefniadaeth ysgolion mewn amrywiol rannau o Gymru.¹² Darparwyd eglurhad llawnach o'r sefyllfa gyfreithiol gan y Dirprwy Brif Weinidog a gellir ei weld yn **Atodiad 1**.

3.3. Llwybrau Diogel a Threfniadau Teithio

Yn ystod y broses graffu codwyd pryderon ynghylch sut y caiff "llwybr diogel" ei ddiffinio a'r diffyg cysondeb o ran sut y caiff ei ddiffinio rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Cyfeiriodd tystiolaeth ysgrifenedig o swyddfa'r Comisiynydd Plant at hyn¹³ a dywedwyd wrth Aelodau y gallai canllawiau gwell helpu i egluro ystyr "llwybr diogel".¹⁴ Dadleuodd BUSK ei bod yn angenrheidiol "sefydlu beth yw taith ddiogel", gan ddadlau nad oes rhaid i gerbydau sy'n bodloni safon benodol ddarparu trefniadau teithiau gan ddysgwyr.¹⁵ Dywedodd WSSA y gall lleoliad ysgolion amrywio'n sylweddol, ac y byddai'n ddefnyddiol pe gallai AALlau roi arweiniad ar yr hyn a allai fod yn daith beryglus o bosibl i'r ysgol. Hoffai SUSTRANS Cymru i bob plentyn yng Nghymru gael yr hawl i daith ddiogel i'r ysgol.¹⁶

3.4. Codau Ymddygiad

Mae'r Mesur drafft yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol lunio Cod Ymddygiad ("y Cod") ar gyfer ymddygiad ar fysiau ar ôl ymgynghori ag ysgolion, sefydliadau addysg bellach, rhieni a dysgwyr. (Adran 10). Caiff y Cod ei roi ar waith felly drwy roi pŵer i bennaeth i osod

¹¹ Y Pwyllgor Menter a Dysgu, Trawsgrifiad y Pwyllgor, 10 Hydref 2007, paragraff .135 <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-asse/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=61711&ds=10/2007>

¹² Ibid., paragraff .227

¹³ Op.cit., y Comisiynydd Plant, paragraff 4

¹⁴ Op Cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 3/10/07, paragraffau 50-52

¹⁵ EL(3) 05-07 (t4) Busk, Tystiolaeth i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr Drafft.

¹⁶ EL (3) 05-07 (t.6), SUSTRANS, Tystiolaeth ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Drafft

sancsiynau ar gyfer digwyddiadau os ydynt yn dod o fewn cwmplas polisi ymddygiad yr ysgol (Adranau 11 a 12). O dan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, gall y polisi ymddygiad gynnwys ymddygiad disgyblion y tu allan i safle'r ysgol. Mae'r Mesur drafft yn cynnig diwygio'r Ddeddf hon fel y caiff digwyddiadau ar fysiau eu cynnwys.

3.4.1. Yr Egwyddor

Roedd yr holl dystion yn gefnogol ar y cyfan o egwyddor y Cod Ymddygiad.

3.4.2. Gorfodi

Fodd bynnag, roedd safbwyntiau gwahanol o ran gorfodi'r Cod. Roedd y cyrff addysgu yn dueddol o wrthwynebu y dylai'r Pennaeth gael y cyfrifoldeb am orfodi'r Cod Ymddygiad. Nododd tystiolaeth a gyflwynwyd ar y cyd gan NAHT ac ASCL:

At the moment, headteachers work to support the LEA, and any information that school staff gain is available to the LEA. However, as the LEA is the contractor and has the responsibility, it takes that final action. The final sanction is to refuse permission for the child to travel on the bus. That already happens. Our concern is that the Measure, as it is worded at the moment, would pass a lot of extra responsibility to the headteacher without any additional powers to fulfil it. It is totally out of the control of the school staff.

17

Maent yn awgrymu y caiff adran 10 (7) y Mesur ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at "aelod dynodedig o staff sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig am faterion cludiant".¹⁸ Dywedodd WSSA bod ysgolion yn teimlo na ddylai'r cyfrifoldeb llawn am orfodi fod yn nwylo'r pennaeth, yn rhannol am resymau cyfreithiol gan mai rhwng yr awdurdod addysg lleol a'r darparwyr cludiant y mae'r contract, a bod yr ymddygiad hwn yn digwydd y tu allan i'r ysgol.

Roedd cyrff eraill yn gweld y rhesymeg y dylai penaethiaid fod yn gyfrifol am orfodi. Cytunodd Ymgyrch Stuart mai'r penaethiaid sydd yn y sefyllfa orau i orfodi disgyblaeth ond roeddent o'r farn bod diffyg eglurder yn y Mesur drafft fel ag yr oedd rhwng yr ysgolion sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth a'r awdurdodau lleol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am roi'r contract ar waith.¹⁹ Dywedodd swyddfa'r Comisiynydd Plant wrth y Pwyllgor y dylid cynllunio'r Codau yn yr ysgolion ar ôl ymgynghori â disgyblion. Byddai hyn yn creu ymdeimlad o berchnogaeth a byddai'n briodol i benaethiaid eu rhoi ar waith. Cytunodd CPT Cymru y dylai penaethiaid orfodi'r Cod yn y lle cyntaf.

Dadleuodd yr WLGA bod y berthynas bresennol rhwng AALLau a chyrff llywodraethu yn caniatáu dirprwyo rhai cyfrifoldebau o ran y contract. Byddai gorfodi'r Cod yn gofyn am ddirprwyo cyfrifoldeb i benaethiaid yn glir.

Nododd rhai tystion y byddai rhoi pwerau gorfodi i benaethiaid yn cael effaith gynyddol ar feysydd eraill o'u gwaith. Eglurodd Dr Chris Howard o Ymgyrch Stuart, sydd hefyd yn

¹⁷EL(3) 04-07(t.4), Tystiolaeth gan NAHT/ASCL paragraff 3

¹⁸ Ibid., paragraff 2

¹⁹ Op.cit, Ymgyrch Stuart, paragraff 10

bennaeth, fod y Mesur yn nodi y gall y pennaeth gymryd camau gweithredu drwy ddiarddel disgybl o'r ysgol ac o gludiant i'r ysgol:

That means that there would be an appeal under the exclusion procedures, and, if you do not know, I can tell you that appeals under exclusions procedures have multiplied tenfold or maybe twenty-fold in the last 10 years. You can hardly exclude for any period of time these days without having a formal hearing. That is not only an administrative burden, but an emotional one on headteachers. Due to the way that it is drafted, it is the headteacher who would have to prosecute the case before the complaining parent and maybe their legal representative. It is the school governing body that would have to referee and adjudicate the case and I think that that is a step beyond for lay people on school governing bodies. It would be far better if you just retained the power and the sanction with the local authority as the contracting party working with headteachers.²⁰

Sylwodd NAHT ac ASCL anawsterau lle caiff sancsiynau eu gosod ar ddisgyblion o ganlyniad i ganllawiau'r AALI i'r pennaeth gan eu bod yn credu y dylid gosod sancsiynau, yna, pan ddaw apêl, mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu mewn sefyllfa anodd. Ni fyddai ganddynt dystiolaeth; dim ond wedi cael eu cyfeirio gan yr AALI y byddent.²¹

Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn y dystiolaeth gan y tystion amrywiol oedd diffyg eglurder o ran nodi pwy sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol o dan yr amgylchiadau **presennol**, yn ogystal ag yn y Mesur drafft. Pwysleisiodd BUSK a CPT yn enwedig nad oedd yn ymddangos bod AALLau, gweithredwyr, gyrwyr ac ysgolion fel petaent yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am beth ac yn aml iawn nad oes gallu ac arbenigedd digonol o fewn awdurdodau lleol.

Tynnodd Dr Chris Howard sylw'r Aelodau at ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth ar y defnydd o wregysau diogelwch ac ataliadau plant sy'n nodi'n eithaf clir bod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r broses o reoli plant ac oedolion sy'n camymddwyn ar gludiant ysgol yn gyfrifoldeb ar y tri pharti yn y contract, sef yr ysgol, yr awdurdod lleol fel yr awdurdod contractio, a'r contractiwr, sef y cwmni bysiau. Dywedodd wrthym:

A huge difficulty, which, quite honestly, the Learner Travel Measure tries to resolve, is the fact that, although the law is clear, hardly anyone who is operating under that law seems to know what it is. Five years down the line, despite the high-profile campaigns that we, BUSK and the Assembly Government have been engaged in, in this part of the UK, those things still happen, and you still get bus drivers saying that this is the school's responsibility and school clerks saying, 'It has nothing to do with us'. I can tell you, anecdotally, that in a constituency not far from here, a parent was told three weeks ago by a transport official that misbehaviour on school buses was nothing to do with the local authority.²²

²⁰ Op.cit., Trawsgrifiad Pwyllgor, 3/10/07 paragraph 143

²¹ Y Pwyllgor Menter a Dysgu, Trawsgrifiad Pwyllgor, 26 Medi 2007, paragraph 240 <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas/el070926qv7.pdf?langoption=3&ttl=EL%283%29-04-07%20%3A%20Transcript%20%28PDF%2C%20171kb%29>

²² Op Cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor 3/10/07, paragraph 141

3.4.3. Cwmpas

Clywsom safbwyntiau gwahanol tebyg ar gwmpas y Cod Ymddygiad. Mae Ymgyrch Stuart, NAHT/ASCL a CPT oll yn credu y dylai'r Cod Ymddygiad fod ar waith ledled Cymru ond cred ATCO a'r CLILC y dylai awdurdodau lleol gael disgrisiwn. Nododd Ymgyrch Stuart bod mwy o drefniadau amrywiol ar gyfer cludiant - er enghraifft o ganlyniad i Lwybrau Dysgu 14-19 - wedi cryfhau'r rhesymeg o gael ymagwedd Cymru gyfan.²³

Cytunodd y CLILC y dylai'r Cod fod yn ofyniad cenedlaethol ond dadleuodd y dylai fod ar waith yn rhanbarthol a bod arfer da eisoes ar waith lle'r oedd wedi cael ei ddatblygu o'r bon i'r brig a oedd yn sicrhau perchnogaeth leol.

Mynegodd rhai tystion bryderon ynglŷn â'r anawsterau o roi gwahanol Godau Ymddygiad ar waith ar fws lle roedd disgyblion o fwy nag un ysgol neu ardal awdurdod lleol yn teithio.

3.4.4 Dulliau eraill o deithio

Yn ystod y cyfnod o gymryd tystiolaeth codwyd y mater o ehangu'r Cod Ymddygiad i ddisgyblion nad ydynt ar fysiau ysgol gan Aelodau a thystion. Roedd hyn yng nghyd-destun disgyblion sy'n teithio ar fysiau gwasanaeth a'r rhai sy'n teithio i'r ysgol mewn dulliau eraill.

O ran y cyntaf, mae adran 1(2) o'r Mesur drafft yn egluro bod y trefniadau teithio sy'n dod o fewn cwmpas y Mesur yn cynnwys darpariaeth cludiant lle mae'r awdurdod yn talu am holl gostau teithio unigolyn o fewn rheswm, neu gyfran ohonynt, neu'n talu lwfansau o ran y defnydd o ddulliau teithio penodol. Felly, os bydd unigolyn yn teithio ar fws gwasanaeth cyffredinol a bod yr awdurdod lleol yn talu am y tocyn, mae hynny'n dod o fewn cwmpas y trefniadau teithio a amlinellwyd yn y Mesur, a fyddai felly'n dod o fewn y cwmpas y trefniadau goruchwyllo a disgyblu.

O ran y dulliau eraill o deithio, dywedodd swyddfa'r Comisiynydd Plant wrthym fod adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ymdrin â'r dyletswydd ar ysgolion o ran 'lles y plant' sy'n "gorfod cwmpasu eu hymddygiad, a'u dulliau o gyrraedd a gadael yr ysgol yn ddiogel. Felly, mae'r ddyletswydd honno eisoes yn bodoli mewn ysgolion, ac mae wrthi'n cael ei thrafod o fewn y proffesiwn addysgu ar hyn o bryd. Nid wyf yn credu bod ateb clir, ond mae'n bwynt pwysig - mae gan yr ysgol gyfrifoldeb am hyn."

Derbyniodd y Pwyllgor lythyr gan y CPT ar ôl y cyfarfod pan wrandawyd ar eu tystiolaeth a gellir ei weld yn **Atodiad 2**. Roedd yn **mynegi pryder** am y cyngor cyfreithiol a roddwyd yn y cyfarfod sef y bydd y Mesur hefyd yn berthnasol i ddysgwyr sy'n teithio ar wasanaethau nad ydynt yn rhan o gontract ysgolion lle caiff eu costau teithio eu talu gan yr AALI (**Atodiad 3**). Yn ôl y cyngor hwnnw, bydd y cod ymddygiad yn berthnasol i ddysgwyr ar wasanaethau nad ydynt yn rhan o gontract ysgol lle mae'r AALI yn talu am eu costau teithio yn yr un modd.

²³ Ibid,

Daeth y CPT i'r casgliad yn yr achos hwnnw y byddai anrhefn llwyr a baich annerbyniol ar weithredwyr, a hyd yn oed mwy o faich ar yrwyr gan y byddai rhai disgyblion ar y bysiau hynny yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad tra na fyddai disgyblion eraill, na fyddai'r AALI yn gwneud eu trefniadau teithio, yn rhwym wrth yr un Cod.

3.5. Newidiadau i amseroedd Dechrau a Gorffen

Cafwyd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn gan y rhan fwyaf o dystion. Dadleuodd y Comisiynydd Plant ei bod yn "rhesymegol" i roi'r pŵer i awdurdodau lleol i amrywio amseroedd sesiynau ysgolion wrth asesu angen teithio i ddysgwyr a dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Mesur wedi'i ddrafftio yma "mewn modd synhwyrol". Fodd bynnag, holwyd p'un a fyddai'r system yn gweithio mewn ardaloedd gwledig ac y byddai angen adolygu'r trefniadau.²⁴ Mynegodd WSSA, Ymgyrch Stuart, ATCO a CLILC eu cefnogaeth. Nododd CPT Cymru y dylai Gweinidogion Cymru fod yn barod i gyfeirio ysgolion ar y mater hwn gan iddynt fynegi amheuan ynglŷn â dymuniad rhai rhanddeiliaid i gydweithredu.²⁵ Ychwanegodd CPT hefyd y byddai'r arbedion maint a gyflwynir gan y polisi yn cynnig arbedion sylweddol a cherbydau o ansawdd gwell, "oherwydd po fwyaf o waith a gewch gan y cerbyd, y gorau ydyw i'r gweithredwr a'r mwyaf effeithlon ydyw i'r cleient."²⁶

Fodd bynnag, mae Llywodraethwyr Cymru yn gwrthwynebu rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ac yn credu y dylai'r Cyrff Llywodraethu ei gadw. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor ganddynt at yr argymhelliad yn Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes blaenorol a oedd yn nodi:

"Rydym yn teimlo y dylai AALLau arwain y broses o nodi clystyrau o ysgolion lle byddai cydweithio o'r fath yn effeithiol. Yna mater i'r cyrff llywodraethu ysgolion fyddai cytuno, mewn ymgynghoriad ag athrawon a rhieni".

Dyweddodd Llywodraethwyr Cymru y byddent yn fodlon gyda'r argymhelliad hwn.

Cytunodd yr holl gyrff, fodd bynnag, na fyddai amseroedd cyfnodol yn gweithio oni bai bod ymgynghoriad llawn a phriodol a chydweithrediad rhwng yr holl randdeiliaid perthnasol.

3.6. Cydweithrediad

Mae Adran 15 y Mesur drafft yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu roi "unrhyw wybodaeth neu gymorth arall sy'n ofynnol ganddynt yn rhesymol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Mesur hwn" i awdurdodau lleol ac y dylai awdurdodau lleol gydweithredu â'i gilydd. Mynegodd tystiolaeth gan y Comisiynydd Plant y gobaith y bydd y gofyniad i gydweithio yn "gwella cydgysylltu teithio i ddysgwyr."²⁷

3.7. Cludiant ar gyfer dysgwyr ôl-16 a phlant mewn addysg feithrin

Croesawodd yr AALLau y pwerau ychwanegol mewn addysg ôl-16 ac addysg feithrin yn ofalus. Fodd bynnag, maent am sicrhau bod digon o ymgynghori ag awdurdodau lleol cyn

²⁴ Op Cit., Y Comisiynydd Plant., paragraff. 6

²⁵ Op.cit., CPT, paragraff 12

²⁶ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 10/10/07, para.14

²⁷ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor 3/10/07, paragraff 7

mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth i feithrinfeydd ac addysg ôl-16. Pwysleisiodd y Dirprwy Brif Weinidog a CLILC yr angen i edrych ar ganlyniadau'r prosiectau peilot sydd ar waith ar hyn o bryd ym Mhen-y-Bont ar Ogwr a'r gogledd, sy'n edrych ar gonsesiynau hanner pris i ddysgwyr ôl-16.²⁸

Mae tystiolaeth RhAG i'r Pwyllgor yn cyfeirio at y ddau fater hwn. Roeddent yn dymuno i unrhyw drefniadau ar gyfer addysg feithrin osod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar yr un lefel â chyfrwng Saesneg. O ran addysg ôl-16, mae'r RhAG yn poeni bod cynigion presennol awdurdodau lleol i dorri cludiant ôl-16 yn fygythiad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.²⁹

Dywedodd Fforwm wrthym yr hoffent weld ymdriniaeth o'r diffiniad o 'sefydliad addas'. Nid yn y sefydliad agosaf i gartref y ceir darpariaeth addas o reidrwydd. Mae'n rhaid i'r diffiniad o'r hyn sy'n briodol neu'n addas ganolbwyntio o ddifrif ar y dysgwr.³⁰

3.8. Hyrwyddo Cynaliadwyedd

Mae'r Mesur drafft yn dweud bod yn "rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo" dulliau cynaliadwy o deithio. Dadleuodd rhai tystion, gan gynnwys Llywodraethwyr Cymru ac WSSA na ddylai materion amgylcheddol fod yn bwysicach na materion addysgol.

Roedd Ymgyrch Stuart o'r farn y byddai hyrwyddo cynaliadwyedd yn arwain at welliant mewn stoc bysiau.

Dywedodd SUSTRANS Cymru y byddai'r Mesur yn elwa ar ymagwedd fwy cadarnhaol tuag at y cyfraniad y gallai cerdded a beicio ei wneud i fynd i'r afael â'r daith i'r ysgol, a strategaeth ragweithiol i gynyddu lefelau teithio actif.

3.9. Addysg 14-19: Llwybrau Dysgu

Yn ystod y broses o graffu ar y Mesur drafft mynegodd Aelodau a thystion bryderon nad oedd y Mesur yn mynd i'r afael â'r cyd-destun addysg 14 i 19 sy'n datblygu yn llwyr a allai olygu y byddai disgyblion yn symud rhwng safleoedd yn ystod y dydd.

Dywedodd y Comisiynydd Plant dros dro wrth y Pwyllgor bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i "fannau dysgu" gan fod yr agenda yn llawer ehangach na dim ond ysgolion, gan gwmpasu dysgu seiliedig ar waith a dysgu galwedigaethol a allai ddigwydd ar safle cyflogwr. Roedd angen i'r Mesur fod wedi'i "brawfesur ar gyfer y dyfodol" er mwyn ystyried Llwybrau Dysgu 14-19.

Awgrymodd Dr Chris Howard o Ymgyrch Stuart y dylai'r Mesur gael ei ddrafftio i gwmpasu'r ffaith y bydd contractwyr eraill ar wahân i'r awdurdod lleol, ac efallai y gwnânt ddefnyddio bysiau, bysiau mini, neu dacsis. Fodd bynnag, byddai angen cael safon ofynnol o hyd ar yr holl ddarpariaeth o fewn y gyfraith.

²⁸ Ibid., paragraff 308 a pharagraff 175

²⁹ Op Cit., Tystiolaeth RhAG, paragraffau 2 a 3

³⁰ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor 26/09/07

Dywedodd Fforwm wrthym y dylai'r Mesur gael ei ailddrafftio er mwyn nodi y caiff partneriaethau llwybrau 14-19 eu cynnwys yn y broses gynllunio neu eu bod efallai yn rheoli'r broses gynllunio ar gyfer y grŵp oedran hwnnw.³¹

Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym nad yw teithio yn ystod y diwrnod ysgol wedi'i gynnig i gael ei gynnwys yn y Mesur.³²

3.9. Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol

Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gyflawni gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar yrwyr a hebryngwyr bysiau ysgol ar hyn o bryd. Mae gan gyflogwyr y disgresiwn i gomisiynu gwiriadau ac mae rhai AALLau yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr cludiant gynnal gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol fel amod yn y contract cludiant rhwng yr ysgol a'r cartref. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog AALLau i sicrhau y caiff gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol eu cynnal ar bob aelod o staff a gaiff ei gyflogi ar wasanaethau cludiant ysgol ar contract fel mater o arfer da. Dylid anfon y gwiriadau gofynnol, a sut y cânt eu trefnu, pan fydd AALLau yn trefnu contractau gyda gweithredwyr cludiant.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gyflogwyr ar atal pobl anaddas rhag cyflawni unrhyw rôl gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg.³³ Mae'n amlinellu manylion y gwiriadau cyn apwyntiad y dylid eu gwneud ar yr holl staff a fydd mewn cysylltiad â phlant.

Mae Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006³⁴ yn cynnwys trefniadau a fydd yn effeithio ar wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae'r Deddf yn gwneud gwiriadau uwch y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn orfodol i bobl sy'n gyrru cerbyd at ddibenion cludo plant neu unrhyw un sy'n eu goruchwylio neu sy'n gofalu amdanynt. Felly, bydd yn rhaid i yrwyr bysiau ysgol penodedig, gyrwyr tacsis, a hebryngwyr gael gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Daw hyn i rym y flwyddyn nesaf. Rhoddwyd gwybod i ni gan Lywodraeth y Cynulliad mai dyma pam na chafodd gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol eu cynnwys yn y Mesur drafft.³⁵

Tynnodd y CPT a'r ATCO sylw'r Pwyllgor at yr anghysondeb o ran cynnal gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ledled Cymru. Nododd ATCO bod y DVLA wedi cyhoeddi ymgynghoriad, ac ynddo mae un cynnig yn ymwneud â gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar yr holl geisiadau am drwydded pan gânt eu prosesu. Byddai hyn yn canoli'r broses ac yn rhoi cysondeb.³⁶

³¹ Ibid., paragraff 155-56

³² Op.Cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 10/10/07, paragraff 309

³³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr 34/02, 'Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg, Hydref 2002.'

³⁴ Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006 (Pennod 47) <http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2006/60047--h.htm>

³⁵ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 10/10/07, paragraff 271

³⁶ DVLA, *Improving Bus Passenger Safety through the Vehicle Licensing System*, Papur Ymgynghori, mis Medi 2007. http://www.dvla.gov.uk/media/pdf/consultations/cons_190907.pdf

3.10. Caffael

Clywsom dystiolaeth gymhellol am bwysigrwydd caffael o ran sicrhau darparu cludiant diogel ac o safon i'r ysgol. At hynny, gwnaeth y tystion gysylltiad eglur rhwng ansawdd y cludiant a materion ymddygiad. Nododd dystiolaeth Gney Mehta i'r Pwyllgor, y profiad hwn yn arbennig.³⁷

Dywedodd ATCO wrth y Pwyllgor **"mae'r gyfundrefn gaffael y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â hi yn gweithredu yn erbyn rhai o nodau'r Mesur"**.³⁸ Er enghraifft, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gael gwerth gorau am arian a, thrwy roi tocynnau tymor i blant a'u rhoi ar fysiau gwasanaeth - bysiau sydd eisoes yn gweithredu yn hytrach na chreu contract newydd - maent yn sicrhau gwerth am arian. Maent yn helpu i gefnogi rhai gwasanaethau na fyddent yn gweithredu fel arall drwy roi referniw tocyn tymor i'r gweithredwr penodol hwnnw.

Dywedodd BUSK wrthym na chaiff asesiadau risg eu cynnal bob amser ar ddulliau teithio a bod contractau tymor byr yn rhwystro gweithredwyr rhag buddsoddi mewn cerbydau modern, o safon.³⁹ Eglurodd y CPT hefyd bod defnyddio bws sy'n cael ad-daliad tollau tanwydd yn llawer mwy cost effeithlon i'r gweithredwr a'r awdurdod lleol. Os yw gwasanaeth yn "wasanaeth drws ar gau" nid oes ad-daliad tollau tanwydd, oherwydd mae'n rhaid i'r paramedrau ar gyfer y gwasanaeth fod ar gael i'r cyhoedd.⁴⁰

Dywedodd Ymgyrch Stuart y dylid rhoi dogfen dendr safonol ar waith gan y 22 o awdurdodau lleol er mwyn sicrhau safon gyffredin ledled Cymru.⁴¹

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n ystyried ymatebion i'w ymgynghoriad ar ei Chanllawiau anstatudol ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol.⁴² Dengys y dyfyniad o'r Canllaw drafft a nodir ym Mlwch 1 isod, bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o'r angen i godi safonau caffael. Fodd bynnag, fel Canllaw anstatudol nid yw'n rhwymo awdurdodau lleol.

Blwch 1

Mewn sawl rhan o Gymru canolbwynt trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol yw contractau ymrwymedig rhwng AALlau a gweithredwyr cludiant. Gall AALlau sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian a dylent gydymffurfio ag arfer gorau caffael.

Rhaid cael cydbwysedd rhwng hyd y contract, safon y cerbydau y mae'r contractiwr yn eu cynnig a'r cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer gyrwyr contractiwr. Mae contractwyr yn fwy parod i fuddsoddi mewn cerbydau o ansawdd gwell os bydd ganddynt contract am gyfnod hirach, megis pum mlynedd neu fwy, ac yn ystod y cyfnod hwn gallant gael gwell adenillion ar eu buddsoddiad. Mae contractwyr yn fwy parod i fuddsoddi mewn hyfforddiant staff os oes sicrwydd y bydd y sgiliau hynny yn ddefnyddiol am gyfnod hirach. Cyfrifoldeb yr AALlau yw

³⁷ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 3/10/07 paragraff 120-123

³⁸ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor 3/10/07, paragraff 106

³⁹ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor 3/10/07, paragraff 113

⁴⁰ Op.cit. Trawsgrifiad y Pwyllgor 3/10/07, paragraff 12

⁴¹ Op.cit, Trawsgrifiad y Pwyllgor 3/10/07, paragraff 149

⁴² Ar ôl ei gwblhau, bydd y canllaw yn disodli Cylchlythyr 19/95 y Swyddfa Gymreig ('Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol') ar hyn o bryd.

pennu ble mae'r cydbwysedd, ond dylai cael gwasanaeth o safon uchel fod yn flaenoriaeth uchel.

Dylai tendro a rheoli contractau AALI yn llwyddiannus gwmpasu:

- meini prawf gwrthrychol ar gyfer dewis contractwyr gan ddefnyddio arferion gwerth gorau am arian;
- y math o gerbydau a ddefnyddir, gan gynnwys manylebau ynglŷn â'r safonau gofynnol;
- manyleb am rolau a chyfrifoldebau contractwyr, gyrwyr ac unrhyw hebryngwyr;
- gweithdrefnau ar gyfer casglu, gwerthuso, cadw gwybodaeth a hygyrchedd gwybodaeth (megis gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, trwyddedau gweithredwyr, trwyddedau gyrru, tystysgrifau MOT);
- hyfforddiant ar gyfer gyrwyr a staff contractwr eraill;
- gweithdrefnau i gontractwyr ddwyn sylw'r AALLau a/neu'r ysgolion am faterion;
- amodau o ba mor aml y cyflawnir gweithgareddau monitro a'r mathau ohonynt gan AALLau neu eu hasiantaethau o bosibl (megis ymweliadau wedi'u rhaglennu, hapwiriadau, archwiliadau cwyno, a chyswllt ag ysgolion, rhieni a disgyblion);
- cyfnewid gwybodaeth ag asiantaethau allanol (megis yr Asiantaeth Gwasanaethau a Gweithredwyr Cerbydau (VOSA) a'r Comisiynydd Traffig);
- trefniadau i fonitro a gwerthuso'r broses o gyflwyno gwasanaeth, a gweithredu os yw'r AALI o'r farn fod hynny'n angenrheidiol.⁴³

Dywedodd Simon Shouler, Cyfarwyddwr y Polisi a Gweinyddu Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, hefyd wrthym fod cynllunio trafndiaeth ranbarthol ledled Cymru o dan *Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006* yn mynd rhagddo. Mae'r consortia trafndiaeth rhanbarthol yn rhoi eu cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol gyda'i gilydd ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn edrych arnynt er mwyn ffurfio fframwaith i ystyried contractau bysiau mwy a allai ddarparu gwasanaethau llawer mwy integredig.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym hefyd y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried cynnwys y Mesur wrth bennu contractau, ac na fyddai'n bosibl gorfodi contractau a fyddai'n gwrthdaro â'r Mesur.⁴⁴

3.11. Trafnidiaeth i Ddysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig

Nid yw'r Mesur drafft fel y mae yn cynnig gwneud newidiadau i drefniadau ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Roedd y Comisiynydd Plant dros dro, Maria Battle, wedi rhoi tystiolaeth yn gynharach i'r Pwyllgor a oedd yn ystyried Anghenion Dysgu Ychwanegol Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. Yn ei thystiolaeth dywedodd wrthym ei bod yn credu ei bod "yn fwy addas y caiff teithio ei gynnwys yn y Mesur hwn yn hytrach nag yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae angen tebygrwydd o ran y diffiniadau o angen ychwanegol neu angen arbennig rhwng y Mesur a'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol." Daeth i'r casgliad:

⁴³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cludiant rhwng yr Ysgol a'r Cartref, Dogfen Ymgynghori*, Tachwedd 2006. Paragraffau 2.6- 2.8 <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/Consultations/2006/hometoschooltransport-con-e?lang=en>

⁴⁴ Ibid., paragraff 275

In our view, if we are to have just one measure applicable to the travel needs of children with special educational needs, it is more appropriate for that to be in this Measure. I would submit, however, that it should be broader than currently drafted.⁴⁵

Yn ei lythyr ar faterion cyfreithiol at y Cadeirydd (**Atodiad 1**), nododd y Dirprwy Brif Weinidog:

Deallaf y cadarnhawyd i'r Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol yr wythnos ddiwethaf y gall unrhyw Fesur (gan ddefnyddio Mater 5.17 fel y pŵer galluogi) sy'n darparu ar gyfer pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd ddarparu (gan ddefnyddio Mater 5.10 fel pŵer galluogi ychwanegol) ar gyfer trefniadau teithio pobl sy'n cael addysg gynradd, uwchradd neu addysg bellach neu hyfforddiant. Deallaf hefyd bod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi cyflwyno cyngor i'r Pwyllgor Craffu hwnnw ar gymhwysedd deddfwriaethol er mwyn darparu trefniadau teithio ar gyfer pobl sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn amlwg, byddaf i a'm swyddogion yn awyddus i ystyried sylwadau ar y Mesur arfaethedig a'r materion a godwyd yn gysylltiedig â'r bobl ag anawsterau dysgu a byddwn yn gwneud hynny ar y cyd â'n cydweithwyr sy'n delio ag Anghenion Dysgu Ychwanegol - Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

Dadleuodd Fforwm hefyd y dylai'r Mesur roi ystyriaeth bellach i anghenion dysgwyr anabl. Ceir arfer gwahanol ymysg awdurdodau lleol ynglŷn â hawl - mae rhai yn ei wneud yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 19 oed, ac eraill i bobl ifanc hyd at 25 oed, er mwyn rhoi cefnogaeth ariannol ar gyfer cludiant. Byddai eglurhad o'r meini prawf oedran ar gyfer dysgwyr anabl yn ddefnyddiol.⁴⁶

3.12. Plant sy'n derbyn gofal

Credai'r Comisiynydd Plant dros dro hefyd y gallai'r Mesur gael ei dynhau o ran "plant sy'n derbyn gofal":

There is a definition within the Measure of 'ordinarily resident', which it would be beneficial to look at again. When a child is looked after, particularly if the child is placed out of the local authority area in which his or her parents live—and a number of children are in out-of-county placements, particularly in rural areas—our experience is that we have to intervene when there are disputes in other fields, such as health, about who will pay for the child. Is it the authority that placed the child or the authority that is housing the child? The definition of 'ordinarily resident' is about a child living with a parent and so on, and I counsel that that should be looked at again with looked-after children in mind.⁴⁷

⁴⁵ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 3/10/07, paragraff 17

⁴⁶ Op Cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 26/09/07, paragraff 188

⁴⁷ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 3/10/07, paragraff0.66

3.13. Cwmpas Cyfreithiol

Oherwydd y cyfyngiadau ar gwmpas cyfreithiol y Cynulliad fel y nodir uchod, nid aethpwyd i'r afael ag amrywiaeth o bryderon ynglŷn â diogelwch, a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol yn y Mesur arfaethedig, er enghraifft, gwregysau diogelwch, 3 disgybl yn rhannu sedd i 2 a hebryngwyr ar bob bws ysgol. Mynegodd tystion megis BUSK ac Ymgyrch Stuart eu siom o ran cwmpas y Mesur ac roedd y rhan fwyaf o'r tystion o'r farn y dylid cael mwy o bwerau o San Steffan.

Pan ymddangosodd y Dirprwy Brif Weinidog gerbron y Pwyllgor, amlinellodd dri opsiwn i ni:

The first option is to simply say, 'Well, we think that this Measure goes far enough and there is nothing more that we should do'. The second option is to say, 'We will legislate where we can under this Measure, but we will seek further powers to enable us to deal with some of the other issues that have been raised, which go outside the competence of this Measure'. The third option is to say, 'Well, we could put everything on hold and wait for further powers and then have a comprehensive Measure'.⁴⁸

Dywedodd wrthym ei fod yn dueddol o ddewis yr ail opsiwn.

⁴⁸ Op.cit., Trawsgrifiad y Pwyllgor, 10/10/07 paragraff 220

Argymhellion

Argymhelliad 1:

Ceir consensws cyffredinol ar draws y bwrdd bod cwmpas y Mesur drafft yn rhy gyfyngedig (gan fod cymhwysedd deddfu'r Cynulliad yn rhy gyfyngedig) ac y dylid ceisio cael mwy o bwerau gan San Steffan. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog i geisio'r pwerau hynny.

Fodd bynnag, rydym yn aros i weld pa gynigion y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu datblygu ac am arwydd o amserlen debygol ar gyfer datblygu Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

1. Felly mae'n bosibl y byddwn yn ystyried datblygu Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ein hunain os byddwn yn dal yn anfodlon o ran hyn.

Argymhelliad 2:

Clywsom dystiolaeth gymhellol bod caffael yn fater pwysig iawn er mwyn sicrhau cludiant diogel ac o safon i ysgolion sy'n cael effaith gynyddol ar ymddygiad. Sicrhodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai'r Canllaw a gyhoeddir o dan y Mesur yn berthnasol i gontractau awdurdod lleol.

2. Argymhellwyd y dylid rhoi'r Canllawiau anstatudol presennol ar gontractau ar sail statudol ac y dylai gynnwys dogfen dendr ddrafft safonol.

Argymhelliad 3:

Teimlai sawl tyst yn gryf bod y Mesur drafft yn methu ag ystyried agenda Llwybrau Dysgu 14-19 sy'n cynnwys dysgwyr sy'n symud rhwng safleoedd dysgu yn ystod y diwrnod ysgol/coleg. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn y Mesur drafft.

3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Dirprwy Brif Weinidog ailystyried ei safle ac archwilio i'r ffyrdd y gellir ailddrafftio'r Mesur drafft er mwyn ystyried yr Agenda 14 i 19.

Argymhelliad 4:

Tra'r oedd y rhan fwyaf o dystion o blaid egwyddor y Cod Ymddygiad clywodd y pwyllgor safbwyntiau gwahanol iawn ar sut y gellid ei orfodi a'r hyn a ddylai gael ei gynnwys.

4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog fyfyrion ar y dystiolaeth a glywodd gan y Pwyllgor hwn a rhoi ystyriaeth bellach i'r broses o orfodi'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys.

Argymhelliad 5:

Clywsom hefyd rywfaint o dystiolaeth o ran p'un a ddylai'r Cod Ymddygiad fod yn berthnasol i ddisgyblion sy'n teithio i'r ysgol ar ddulliau eraill o gludiant heblaw bysiau ysgol penodedig. Derbyniodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol nad oedd y Mesur yn cwmpasu pob dull o deithio pe byddai'r trefniadau'n cael eu gwneud gan awdurdod lleol. Mynegwyd pryder gan y CPT ynglŷn â goblygiadau'r cyngor hwn fel y'i gwelwyd yn **Atodiad 2**.

5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog roi ystyriaeth bellach o ran p'un a yw teithwyr sy'n dysgu yn cael eu cwmpasu gan y Cod Ymddygiad ac y dylai ystyried y pryderon a godwyd gan y CPT yn arbennig.

Argymhelliad 6:

Mae'r rhan fwyaf o'r tystion yn cefnogi'r penderfyniad mai cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw pennu oriau agor gwahanol ond mae Llywodraethwyr Cymru yn gwrthwynebu hyn yn gryf. Cytunodd pawb y byddai angen cydweithrediad da iawn rhwng rhanddeiliaid allweddol.

6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog fyfyrion ar y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor ac yn rhoi ystyriaeth bellach i'r darpariaethau yn y Mesur drafft o ran oriau gwahanol.

Argymhelliad 7:

Derbyniodd y pwyllgor rywfaint o dystiolaeth y dylid newid y rhan o'r Mesur sy'n cadw disgrisiwn awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion enwadol fel y caiff ysgolion cyfrwng Cymraeg eu rhoi ar yr un sail ag ysgolion Saesneg. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrthym y byddai hyn yn cael effaith gynyddol ar drefniadaeth yr ysgol mewn rhannau gwahanol o Gymru a rhoddwyd nodyn pellach i'r Pwyllgor y gellir ei weld yn **Atodiad 1**.

7. Mae'r Pwyllgor wedi nodi eglurhad y Dirprwy Brif Weinidog ar y sefyllfa gyfreithiol o ran diffinio ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 8:

Clywsom gan y Comisiynydd Plant dros dro y dylid ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â theithio gan ddysgwyr ag Anghenion Addysg Arbennig yn y Mesur hwn yn hytrach na'r Mesur yn y dyfodol sy'n deillio o Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dywedodd hefyd bod angen cysoni'r diffiniadau o beth yw anabledd yn y Mesur drafft a'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai'n ystyried ei sylwadau ac mae wedi nodi hefyd wrth y Pwyllgor y "Byddaf i a'm swyddogion yn awyddus i ystyried sylwadau ar y Mesur arfaethedig a'r materion a godwyd yn gysylltiedig â'r bobl ag anawsterau dysgu a byddwn yn gwneud hynny ar y cyd â'n cydweithwyr sy'n delio â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol - Anghenion Dysgu Ychwanegol."

8. Rydym yn croesawu bwriad y Dirprwy Brif Weinidog i ystyried materion Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Mesur ac yna i gydweithredu â chydweithwyr sy'n ymdrin â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn argymhell ei fod yn diwygio'r Mesur os bydd angen.

Argymhelliad 9:

Awgrymodd y Comisiynydd Plant dros dro hefyd y dylid addasu'r geiriad yn y Mesur drafft o ran "preswlydd arferol" a'i oblygiadau i blant sy'n derbyn gofal.

9. Rydym yn argymhell y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog a'i swyddogion ystyried y goblygiadau i blant sy'n derbyn gofal a diwygio'r Mesur drafft os bydd angen.

Ieuan Wyn Jones AC/AM
Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf
Ein cyf: LF/DFM/0004/07

Gareth Jones AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5th Tachwedd 2007

Gareth Jones

Yn dilyn y cyfarfod lle cyflwynais dystiolaeth lafar, rwyf bellach yn atodi nodyn sy'n nodi'r materion cyfreithiol i'w hystyried yng nghyswllt unrhyw newidiadau arfaethedig i'r hawl i deithio i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg. Mae'n siŵr y bydd y Pwyllgor am ystyried y materion hyn cyn anfon unrhyw sylwadau pellach ataf.

Mater arall i'w ystyried yw'r ffaith fod patrwm y ddarpariaeth ieithyddol mewn ysgolion yn amrywio ar hyd a lled Cymru. Mewn rhai ardaloedd mae yna wahaniaeth clir rhwng Cyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg, ond mewn ardaloedd eraill darperir graddau amrywiol o addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd rhai ysgolion yn ddwyieithog, rhai'n Gyfrwng Cymraeg neu'n Gyfrwng Saesneg yn bennaf, ac eraill yn ysgolion dwy ffrwd. Pe byddem yn ceisio diffinio addysg Cyfrwng Cymraeg at ddibenion y Mesur, byddai'r materion hyn yn cymhlethu'r sefyllfa. Rwyf wedi gofyn i'r Tîm Cyfreithiol ystyried y mater hwn ymhellach.

Cododd aelodau'r pwyllgor faterion hefyd am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN-LCO) a chytunais i fwrw golwg ar y rheiny. Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) drafft yn ceisio egluro'r sefyllfa gyfreithiol gyfredol o ran teithio gan ddysgwyr. Mae gofyniad penodol (adran 2(4)) i awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu dyletswydd i asesu anghenion teithio dysgwyr yn eu hardal, ystyried anghenion dysgwyr anabl ac anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu. Mae adran 3 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau cludiant sy'n addas ac sydd ar gael, ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i drefniadau fod yn gymharol ddi-straen a diogel, ynghyd â pheidio â chymryd gormod o amser. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried unrhyw anawsterau dysgu sydd gan blentyn wrth bennu a yw addysg neu hyfforddiant yn addas. Mae adran 4 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau teithio eraill os ydynt yn penderfynu bod angen gwneud hynny i alluogi plentyn i dderbyn addysg neu hyfforddiant. Mae'r nodiadau eglurhaol yn pwysleisio y gellid defnyddio hyn, er enghraifft, i drefnu hebryngwr neu gyfarpar ar gyfer plentyn anabl.

Gallai cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hefyd ddarparu esboniad pellach ar y materion hyn (ac eraill) os oes angen.

Rwyf i'n deall i Bwyllgor Craffu'r ALN-LCO dderbyn cadarnhad yr wythnos diwethaf bod unrhyw Fesur (gan ddefnyddio Mater 5.17 fel ei bŵer galluogi) sy'n darparu ar gyfer unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd yn gallu darparu (gan ddefnyddio Mater 5.10 fel pŵer galluogi ychwanegol) ar gyfer trefniadau teithio i'r unigolion hynny sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant cynradd, uwchradd neu bellach. Deallaf hefyd fod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi cyflwyno cyngor i'r Pwyllgor Craffu ar gymhwysedd deddfwriaethol i ddarparu trefniadau teithio ar gyfer unigolion ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol.

Yn amlwg, byddaf innau a'm swyddogion am ystyried sylwadau ar y Mesur arfaethedig a'r materion a godir mewn perthynas ag unigolion ag anawsterau dysgu a byddwn yn gwneud hynny ar y cyd â chydweithwyr sy'n delio â'r ALN-LCO.

Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad y Pwyllgor yn yr wythnosau nesaf a hoffwn bwysleisio eto fy nyhead i ystyried y safbwyntiau a fynegir er mwyn i ni allu datblygu'r agenda yn y ffordd fwyaf buddiol i ddisgyblion ledled Cymru.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ieuan Wyn Jones', with a stylized, flowing script.

Ieuan Wyn Jones

Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for the Economy and Transport

Proposed Learner Travel (Wales) Measure

Transport to Welsh Medium Schools

Note prepared by the Assembly Government's Legal Services Department

1. The note outlines current legal issues in relation to the provision of transport to Welsh medium schools.

European Convention on Human Rights

2. Article 2 of the First Protocol to the European Convention on Human Rights ("ECHR") provides that -

"No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and to teaching, the State shall respect the right of parents to ensure such education and training in conformity with their own religious and philosophical convictions"

3. Article 14 of the ECHR provides that -

"The enjoyment of the rights and freedoms set forth in this Convention shall be secured without discrimination on any ground such as sex, race, colour, language, religion, political or other opinion, national or social origin, association with a national minority, property, birth or other status"

4. ECHR case law has established the following principles:-

- a) There is no right of access to a particular school of choice;
- b) There is no guarantee to a particular system of education;
- c) There is no right to be taught in a language of the pupil's or parent's choice;
- d) There is no right to be educated through a particular language medium provided the education is given through one of the languages of the state.

5. Although there is no right to be educated in the language of a parent or pupil's choice, the *Belgian Linguistic case* (*Belgian Linguistic case* (No. 2) judgment of 23 July 1968, 1 EHRR 252) makes it clear that there must be no unjustified discrimination on the grounds of language where the state provides education in more than one state language. Any difference in treatment must be objectively and reasonably justified, pursue a legitimate aim and be proportionate.
6. There is an argument that transport to schools is too far removed from access to education to be within the ambit of Article 2 of Protocol 1, and that therefore Article 14 is not engaged. Although there has been no decision on this issue, it is considered that a court is more likely than not to find that Article 2 of Protocol 1 would be engaged so that any difference in the treatment of pupils in similar circumstances in relation to the provision of free transport to Welsh medium and to English medium schools would amount to unlawful discrimination unless it could be objectively justified.
7. There is therefore a risk of unlawful discrimination if legislation were to prescribe that free school transport is to be provided to schools of a particular language medium but did not make the same provision in relation to schools of another language medium constituting a state language. It is considered unlikely that providing for more favourable transport arrangements throughout Wales for parents wanting a Welsh medium education for their children but not doing the same for parents wanting an English medium education for their children can be objectively justified. Such differential treatment may, depending on the facts, be capable of objective justification in certain circumstances or in certain areas (if, for example, there is a clear administrative or financial justification for encouraging attendance at a particular school).

Atodiad 2 - Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad 2. Nid oes fersiwn Cymraeg ar gael o'r atodiad yma.

Atodiad 3 - Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad 3.

Atodiad 4 - Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad 4.

Atodiad 5 – Dolenni i'r Dystiolaeth Ysgrifenedig

Y mae'r papurau canlynol ar gael yn y Gymraeg. Mae gweddill y dystiolaeth ysgrifenedig yn yr adroddiad Saesneg, Atodiad 5

26 Medi 2007

EL(3)-04-07 (p2): Llywodraeth Cymru

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=58955&ds=9/2007>

3 Hydref 2007

EL(3)-05-07 (p2): RhAG

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=59957&ds=10/2007>

EL(3)-05-07 (p2) Atodiad 1: RhAG

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=59862&ds=10/2007>

10 Hydref 2007

EL(3)-06-07 (p4): Llywodraeth Cynulliad Cymru

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=60537&ds=10/2007>

24 Hydref 2007

EL(3)-08-07 (p4): Ymateb CyDAG i ymgynghoriad y Llywodraeth ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr(Cymru)

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=62088&ds=10/2007>